Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Catch22 Include Wales

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2020

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Catch22 Include Wales

Mae Catch22 Include Wales yn ysgol ddydd arbennig annibynnol ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae wedi'i lleoli yn ninas Casnewydd, ac yn cael ei gweinyddu gan Catch22, sef sefydliad nid er elw sy'n berchen ar grŵp o ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r ysgol wedi ei chofrestru ar gyfer hyd at 12 disgybl rhwng saith ac un ar ddeg oed. Mae 12 disgybl yn yr ysgol ar hyn o bryd, ac mae gan y mwyafrif ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae ychydig o ddisgyblion yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae'r pennaeth gweithredol wedi bod yn ei swydd ers tair blynedd, a'r pennaeth ers blwyddyn.

## Prif gryfderau

### *Cryfderau*

Ar draws yr ysgol, caiff y perthnasoedd gwaith cryf rhwng staff a disgyblion effaith gadarnhaol ar wella hyder ac ymddygiad disgyblion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn awyddus i ddysgu'r rhan fwyaf o'r amser. Maent yn dangos diddordeb yn eu gwaith, ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig. Ar yr adegau prin pan na fyddant yn canolbwyntio ar y dasg dan sylw, gyda chymorth medrus y staff, bydd y disgyblion hyn fel arfer yn ailymgysylltu â'u dysgu yn eithaf cyflym. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymateb yn dda i arferion ystafell ddosbarth ac maent fel arfer yn gwrtais a pharchus â staff, oedolion eraill a'u cyfoedion. Maent hefyd yn eithriadol o ofalgar a sensitif wrth ryngweithio â chi therapi'r ysgol, sef 'Scrappy'.

Ers ymweliad dilyniant i gofrestru Estyn â'r ysgol ym mis Tachwedd 2018, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cadarn o ran mynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd i'w datblygu. Penodwyd pennaeth parhaol, ac fe gaiff yr holl bolisïau eu hadolygu i adlewyrchu canllawiau presennol Llywodraeth Cymru, a llywio arfer yn briodol. Hefyd, mae'r unigolyn sy'n gyfrifol am yr ysgol wedi cael tystysgrif datgelu a gwahardd briodol wedi'i chyd-lofnodi gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae'r camau gweithredu hyn wedi helpu sicrhau bod yr ysgol yn bodloni Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 yn llawn.

Mae'r ysgol wedi cryfhau ei phrosesau cynllunio gwelliant hefyd. Er enghraifft, ers dechrau'r flwyddyn academaidd hon, cynhelir teithiau dysgu, arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion bob hanner tymor. Defnyddir y dystiolaeth uniongyrchol hon yn effeithiol i wella ansawdd y ddarpariaeth, fel canolbwyntio mwy mewn gwersi ar ddatblygu medrau cymdeithasol a medrau meddwl disgyblion. Mae'r ysgol yn cysylltu'n briodol â rhwydwaith ysgolion y sefydliad hefyd i sicrhau ansawdd ei darpariaeth, a rhannu arfer dda ar lefel strategol. Mae'n rhy gynnar i werthuso effaith lawn y datblygiadau hyn.

Mae'r ysgol yn meithrin partneriaethau cadarn ag awdurdodau lleoli a rhieni a gofalwyr er budd disgyblion. Mae'n gwneud defnydd effeithiol o gyfleusterau yn y gymuned leol hefyd, fel canolfannau hamdden a gweithgareddau awyr agored i ymestyn darpariaeth y cwricwlwm.

### *Meysydd i'w datblygu*

Er bod yr ysgol wedi cryfhau ei phrosesau ar gyfer cynllunio gwelliant, nid yw wedi cael digon o effaith ar sicrhau bod cynllunio gwersi a gweithgareddau bob amser yn diwallu gwahanol anghenion gallu disgyblion.

Megis dechrau datblygu y mae'r ysgol o ran ei defnydd o ddata i ddarparu gwybodaeth ar gyfer staff unigol a hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ysgol gyfan.

**Argymhellion**

**Dylai'r ysgol:**

**A1. Sicrhau bod cynllunio gwersi a gweithgareddau yn diwallu gwahanol anghenion gallu disgyblion**

**A2. Cryfhau'r cysylltiad rhwng y defnydd o ddata a hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ar bob lefel**

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### *Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

### *Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### *Safon 6: Darparu gwybodaeth*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### *Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/04/2020